Nodiadau Canllaw ar Lenwi Ffurflen FP161 – Hysbysiad Apelydd (Apeliadau i Adran Deulu'r Uchel Lys)

Sylwer mai dim ond ar gyfer apeliadau i Adran Deulu'r Uchel Lys ('yr Uchel Lys') y dylid defnyddio ffurflen **FP161**. Bydd apeliadau sy'n deillio o benderfyniadau neu orchmynion y barnwyr a ganlyn yn cael eu clywed yn yr Uchel Lys.

Os daw'r apêl o'r llys teulu:

- Barnwyr Cylchdaith neu Gofiaduron ac eithrio os yw:
  - Yr apêl yn deillio o benderfyniad neu orchymyn a wnaethpwyd mewn achos o dan Rannau 4 neu 5 o Ddeddf Plant 1989, neu baragraff 19 yn Atodlen 2 i'r ddeddf honno; neu
  - Yr apêl yn deillio o benderfyniad neu orchymyn a wnaethpwyd mewn achos o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002; neu
  - Yr apêl yn deillio o benderfyniad neu orchymyn a wnaethpwyd mewn cysylltiad â dirmyg llys; neu
  - Yr apêl yn ail apêl i'r llys teulu;
- Barnwr Rhanbarth (neu Ddirprwy Farnwr Rhanbarth) Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu (apeliadau rhwymedi ariannol yn unig)

Os daw'r apêl o'r Uchel Lys:

- Barnwr Rhanbarth (neu Ddirprwy Farnwr Rhanbarth) Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu
- Barnwr Rhanbarth (neu Ddirprwy Farnwr Rhanbarth) Cofrestrfa Ddosbarth yr Uchel Lys
- Barnwr Costau (neu ddirprwy)

Dylai apeliadau ym mhob achos teulu arall (gan gynnwys yr eithriadau y cyfeiriwyd atynt uchod) ddal i gael eu cyflwyno i'r Llys Apêl neu i'r Llys Teulu gan ddefnyddio ffurflen **N161 – Hysbysiad apelydd (Pob apêl ac eithrio apeliadau ar y trac hawliadau bychain)**. Os yw eich apêl yn apêl i'r Llys Apêl, bydd **N161D** – Nodiadau Canllaw ar Lenwi'r Hysbysiad Apelydd (pob apêl achos teulu yn y Llys Apêl (yr Adran Sifil) a'r llys teulu) yn eich helpu i lenwi'r ffurflen.

Mae taflen rad ac am ddim **'EX340 – Rwyf am apelio'** sy'n rhoi gwybodaeth am apelio yn yr Uchel Lys, neu i'r Uchel Lys, ar gael o:

- unrhyw lys teulu;
- hmctsformfinder.justice.gov.uk;
- Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu - Family Division Appeals Office, Royal Courts of Justice, Strand, Llundain, WC2A 2LL.

Bydd y daflen hefyd yn egluro ystyr rhai o'r termau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y canllawiau hyn.

Mae gwybodaeth am apelio i'r Uchel Lys ar gael gan Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu - Family Division Appeals Office, Floor 1M, Queen's Building, Royal Courts of Justice, Strand, Llundain, WC2A 2LL.

- Gall staff llys eich helpu i lenwi'r hysbysiad apelydd a rhoi gwybod i chi am y drefn, ond allan nhw ddim rhoi cyngor cyfreithiol i chi – er enghraifft a ddylech chi apelio, a fydd eich apêl yn llwyddiannus ai peidio neu beth ddylech chi ei ysgrifennu ar y ffurflen.

© Hawlfraint y Goron 2016

- Os oes arnoch angen cyngor cyfreithiol ynglŷn â gwneud apêl, dylech gysylltu â chyfreithiwr neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar unwaith.
- Os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, dylai eich cyfreithiwr lenwi'r ffurflen hon ar eich rhan.

PWYSIG – terfynau amser ar gyfer cychwyn (ffeilio) eich apêl.

Dim ond hyn a hyn o amser sydd gennych i ffeilio'ch hysbysiad apelydd yn yr Uchel Lys. **Rhaid i chi weithredu'n gyflym.**

Bydd taflen '**EX340** – **Rwyf am apelio**' ac **'FP201 – Llwybrau Apelio'** yn eich helpu i benderfynu pa lys yw'r llys apêl priodol yn eich achos chi.

Rhaid i chi ffeilio eich hysbysiad apelydd:

- O fewn y terfyn amser a bennwyd gan y barnwr yr ydych yn apelio yn erbyn ei benderfyniad neu ei orchymyn; NEU
- Lle na osodwyd unrhyw derfyn amser gan y barnwr hwnnw, ond bod yr apêl yn erbyn penderfyniad rheoli achos, cyn pen **7 niwrnod** ar ôl y dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn; NEU
- Ym mhob achos arall lle na osodwyd terfyn amser gan y barnwr hwnnw, cyn pen **21 diwrnod** ar ôl y dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn. (Rheol 30.4 yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu)

Nodiadau cyffredinol ar lenwi'r hysbysiad apelydd

Isod fe welwch nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen. Dylech ddarllen y nodiadau i bob adran yn ofalus cyn dechrau llenwi'r adran benodol honno.

Os oes angen mwy o le arnoch i roi'ch atebion, defnyddiwch ddarn arall o bapur, gan nodi'n glir at ba adran y mae'r wybodaeth yn cyfeirio. Ysgrifennwch rif yr achos arno a'i roi ynghlwm wrth yr hysbysiad.

Os nad yw'r holl ddogfennau neu wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eich apêl gennych, peidiwch â gadael i hyn eich rhwystro rhag anfon y ffurflen i'r Uchel Lys, neu fynd â hi yno, o fewn yr amser cywir. Llenwch y ffurflen mor gyflawn â phosibl a darparwch y dogfennau sydd gennych. Bydd y nodiadau ar Adrannau 11 a 12 yn esbonio mwy am yr hyn y bydd angen i chi ei wneud yn yr amgylchiadau hyn.

Mae ffi yn daladwy pan fyddwch yn ffeilio eich apêl. Mae Ffurflenni **EX50 – 'Ffioedd Llys ar gyfer yr Uchel Lys, y llys sirol a'r llys teulu'** ac FP200 - 'Ffioedd Achosion Teulu' yn rhoi arweiniad ar y costau perthnasol a gwahanol ffyrdd o dalu. Rhaid i chi dalu'r ffi berthnasol pan fyddwch yn ffeilio unrhyw ddogfen neu'n cychwyn unrhyw broses, oni nodir yn wahanol. Mae copi o'r ddogfen hon ar gael o:

- unrhyw lys teulu neu ganolfan wrandawiadau
- hmctsformfinder.justice.gov.uk

Os na fyddwch yn talu, bydd eich achos yn cael ei ddal yn ôl ('atal') neu ei wrthod ('dileu').

Os nad oes gennych lawer o gynilion, neu os nad oes gennych unrhyw gynilion o gwbl, os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol neu os yw eich incwm yn isel, efallai y gallwch gael help i dalu ffi'r llys (a elwir hefyd yn ddileu ffi). I gael rhagor o wybodaeth, neu i wneud cais am help i dalu ffioedd, ewch i gov.uk/get-help-with-court-fees. Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd, gallwch gael ffurflen bapur **(EX160 – Gwneud cais am help i dalu ffioedd)** gan staff llys mewn unrhyw swyddfa llys teulu. Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd a'ch bod wedi cyflwyno cais papur o ffurflen **EX160** i gael help i dalu ffioedd, **RHAID** ichi gyflwyno'r ffurflen gyda'ch hysbysiad apelydd (FP161) oherwydd gallai peidio â gwneud hynny olygu bod eich cais yn cael ei ddal yn ôl ('atal') neu ei wrthod ('dileu').

Os caniatawyd eich cais i ddileu ffi, bydd angen i chi roi'r cyfeirnod unigryw hwn ar y ffurflen.

ADRAN 1: Manylion yr achos yr ydych yn apelio yn ei erbyn

Rhowch rif yr achos yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn y gorchymyn neu'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn.

ADRAN 2: Manylion yr apêl

Gellir dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r wybodaeth y byddwch ei hangen i lenwi'r adran hon yn y gorchymyn neu'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn.

Rhowch enw'r llys yr ydych yn apelio yn erbyn ei orchymyn.

Rhowch enw'r Barnwr y dymunwch apelio yn erbyn ei benderfyniad a nodwch statws y barnwr drwy roi tic yn y blwch perthnasol.

Rhaid i chi hefyd roi tic yn y blwch priodol i nodi natur y penderfyniad y dymunwch apelio yn ei erbyn.

Mae penderfyniadau rheoli achos yn cynnwys gorchmynion yn ymwneud â'r canlynol:

- amserlen ar gyfer treial;
- ffeilio a chyfnewid gwybodaeth (tystion ac arbenigwyr);
- datgelu dogfennau (papurau y mae'r llys wedi dweud bod yn rhaid i chi eu darparu ar gyfer y partïon eraill); neu
- ychwanegu parti at yr achos neu dynnu parti ohono.

Gallai rhoi neu wrthod gorchymyn interim gynnwys gwaharddeb, gorchymyn rhewi, gorchymyn cadw eiddo perthnasol neu orchymyn ariannol.

ADRAN 3: Manylion y partïon yn yr apêl

Rhowch eich enw llawn (enw llawn yr apelydd), a'r cyfeiriad y byddech yn hoffi i bob dogfen sy'n ymwneud â'r apêl gael ei hanfon iddo. Dylech gynnwys gwybodaeth ar gyfer cysylltu, e.e. rhif ffôn a chyfeiriad ebost.

Bydd angen i chi hefyd gynnwys y manylion uchod ar gyfer yr atebydd/atebwyr er mwyn i'r llys allu anfon gohebiaeth a manylion eraill at yr atebydd/atebwyr. Os oes mwy na thri atebydd, rhestrwch eu henwau, eu cyfeiriadau a'u cyfeiriadau ebost ar ddarn arall o bapur a thiciwch y blwch 'manylion partïon ychwanegol' i nodi eich bod wedi gwneud hynny. Dylech hefyd nodi'n glir faint o fanylion ychwanegol rydych wedi'u darparu fel bod staff y llys yn gwybod faint o bartïon ychwanegol sy'n bodoli. Ysgrifennwch rif yr achos yn glir ar y papur a rhowch ef ynghlwm wrth eich hysbysiad.

ADRAN 4: Cynrychiolaeth gyfreithiol

Nodwch a oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol ai peidio, ac os oes gennych, rhowch enw a manylion cyswllt eich cyfreithiwr.

Nodwch a yw eich achos yn cael ei ariannu ag arian cyhoeddus ai peidio.

Nodwch a oes gan bob un o'r atebwyr gynrychiolydd cyfreithiol ai peidio, ac os oes ganddynt, rhowch enw a manylion cyswllt eu cyfreithwyr.

ADRAN 5: Caniatâd i apelio (Rheol 30.3 yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu)

Os yw apêl yn apêl i Adran Deulu'r Uchel Lys, bydd angen i chi gael caniatâd i apelio, oni bai fod yr amgylchiadau isod yn berthnasol.

Dylech nodi na roddir caniatâd ond lle bo'r llys yn ystyried bod gan eich apêl obaith gwirioneddol o lwyddo neu os oes rheswm da arall dros wrando'r apêl. Os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad rheoli achos bydd y llys hefyd yn ystyried:

- a yw'r mater yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau costau apêl;
- yr effaith gyffredinol ar yr amserlen rheoli achosion; e.e. a yw colli dyddiad y treial yn fwy arwyddocaol na'r pwynt gweithdrefnol yr ydych yn dymuno apelio yn ei gylch;
- yr effaith ar les y plentyn a'r amserlen ar gyfer y plentyn; ac
- a fyddai'n fwy cyfleus ymdrin â'ch pwynt yn y treial.

Nid oes angen caniatâd arnoch os yw'r gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn yn un o'r canlynol:

- gorchymyn traddodi;
- gorchymyn llety diogel o dan Adran 25 o Ddeddf Plant 1989 neu Adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rhaid i chi ofyn am ganiatâd yn yr hysbysiad hwn:

- os na wnaethoch gais am ganiatâd i apelio yn y gwrandawiad lle y gwnaed y penderfyniad yr ydych chi'n apelio yn ei erbyn; neu
- os bu i chi ofyn am ganiatâd, ond iddo gael ei wrthod a'ch bod yn dymuno i'r Uchel Lys ailystyried eich cais.

Wrth roi caniatâd i apelio, gall yr Uchel Lys, mewn amgylchiadau eithriadol roi cyfarwyddyd yn nodi y dylid cyfeirio'ch apêl at y Llys Apêl os yw'n ystyried ei bod yn codi pwynt pwysig iawn yn ymwneud ag egwyddor neu ymarfer neu fod rheswm pwysig arall i'r Llys Apêl ei chlywed. Pan fo'r llys yn rhoi'r cyfarwyddyd hwn, fe'i nodir mewn Gorchymyn yn rhoi rhesymau dros roi neu wrthod caniatâd i apelio (gan gynnwys cyfeirio i'r Llys Apêl) a anfonir atoch gan y llys.

Os oes arnoch angen mwy o amser nag a ganiateir ar gyfer ffeilio'ch hysbysiad apelydd, rhaid i chi wneud cais am fwy o amser yn yr hysbysiad ei hun. (Gweler y nodiadau ar Adran 10).

Os ydych yn dymuno gwneud cais i ailagor penderfyniad terfynol ynglŷn ag unrhyw apêl, ni fydd yr Uchel Lys yn caniatáu eich cais oni bai:

- fod angen gwneud hynny er mwyn osgoi anghyfiawnder gwirioneddol;
- bod yr amgylchiadau'n eithriadol ac yn golygu ei bod yn briodol ailagor yr apêl; ac
- nad oes rhwymedi effeithiol arall (Rheol 30.14 yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu).

ADRAN 6: Gwybodaeth arall sydd ei hangen ar gyfer yr apêl

Mae'n ofynnol i chi nodi'r gorchymyn yr ydych chi'n dymuno apelio yn ei erbyn. Os ydych yn apelio yn erbyn rhan yn unig o orchymyn, rhaid i chi ysgrifennu'r rhan (neu'r rhannau) o'r gorchymyn yn y blwch a ddarperir.

ADRANNAU 7 ac 8: Seiliau'r apêl a dadleuon i'w cefnogi

Rhaid i apêl fod yn seiliedig ar seiliau perthnasol (rhesymau dros apelio). Ni fydd yr Uchel Lys yn caniatáu apêl oni bai ei bod yn apêl yn erbyn penderfyniad gan y llys is a oedd naill ai:

- yn anghywir; neu
- yn anghyfiawn oherwydd anghysondeb gweithdrefnol difrifol neu anghysondeb arall yn yr achos (Rheol 30.12 yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu).

Nid yw'r Uchel Lys yn debygol o wrthdroi penderfyniad lle na fyddai hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr i ganlyniad yr achos, neu lle byddai'r apêl yn golygu ailedrych ar yr ymchwiliad ffeithiol a wnaed gan y llys is.

Nodwch yn fyr, **ar ddarn arall o bapur,** pam yr ydych yn meddwl bod penderfyniad y barnwr yn anghywir neu'n anghyfiawn (cyfeirir at hyn fel 'seiliau'r apêl'). Os yw'n bosibl, rhestrwch eich rhesymau mewn paragraffau byr wedi eu rhifo ar wahân, a nodwch eich bod wedi gwneud hyn drwy roi tic yn y blwch perthnasol. Rhaid i'ch hysbysiad apêl nodi'n glir beth yw seiliau'r apêl (Rheol 30.6 yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu).

Cofiwch na chewch gynnwys unrhyw seiliau dros apelio sy'n dibynnu ar dystiolaeth newydd; hynny yw, tystiolaeth sydd wedi dod i law ers i'r gorchymyn gwreiddiol gael ei wneud. Chewch chi ddim cyflwyno tystiolaeth newydd yn eich apêl heb gael caniatâd yr Uchel Lys yn gyntaf. (Gweler y nodiadau ar Adrannau 10 ac 11).

Nodwch drwy roi tic yn y blwch perthnasol eich bod hefyd wedi rhoi dogfen yn amlinellu eich dadleuon i gefnogi seiliau'r apêl (y cyfeirir atynt fel eich 'dadl fframwaith') ynghlwm wrth yr hysbysiad hwn neu y bydd yn dilyn cyn pen 14 diwrnod ar ôl ffeilio'r hysbysiad apelydd. Os nad oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol does dim rhaid i chi wneud dadl fframwaith ar wahân, ond cewch wneud hynny os dymunwch.

Dylai eich dadl fframwaith gynnwys rhestr wedi'i rhifo o'r pwyntiau y bwriadwch ddibynnu arnynt yng ngwrandawiad yr apêl. Ni ddylid cymryd mwy na brawddeg neu ddwy i ddatgan pob pwynt. Cyfeiriwch ymhob pwynt at unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu ffeilio gyda'ch hysbysiad apelydd sy'n cefnogi'r ddadl honno. (Gweler Adran 12 ar ddogfennau).

Os nad ydych wedi rhoi eich dadleuon ynghlwm wrth eich hysbysiad, **peidiwch ag** oedi cyn anfon eich cais. (Gweler y nodiadau ar Adran 12).

ADRAN 9: Beth ydych chi'n gofyn i'r Llys Apêl ei wneud?

Nodwch, drwy roi tic yn y blwch perthnasol, a ydych yn gofyn i'r Uchel Lys roi'r gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn o'r naill du neu ei amrywio, ynteu a fyddech yn hoffi iddo orchymyn ailwrandawiad.

ADRAN 10: Ceisiadau eraill

Llenwch yr adran hon dim ond os ydych chi'n gofyn am orchmynion sy'n ychwanegol at y rhai y gofynnwyd amdanynt yn Adran 9.

Os ydych eisiau i'r llys atal y gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn rhag dod i rym nes bydd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r apêl, rhaid i chi roi tic yn y blwch i nodi eich bod yn dymuno gwneud cais am 'atal gweithredu' ac amlinellu eich rhesymau yn Adran 11.

Os ydych eisiau i'r llys sicrhau na fydd rhagor o gamau'n cael eu cymryd yn yr achos nes bydd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r apêl, rhaid i chi roi tic yn y blwch i nodi eich bod yn dymuno gwneud cais am 'atal gweithredu' ac amlinellu eich rhesymau yn Adran 11.

Os ydych eisiau gwneud cais am estyniad i'r amser ar gyfer ffeilio eich hysbysiad apelydd, rhaid i chi roi tic yn y blwch i nodi eich bod yn dymuno gwneud cais am estyniad. Dylech nodi yn Adran 11 y rheswm dros yr oedi a'r camau a gymerwyd hyd at amser ffeilio'r hysbysiad. Gweler tudalen 2 am wybodaeth am derfynau amser.

Efallai y byddwch am wneud mwy o geisiadau i'r Uchel Lys mewn perthynas â'ch apêl. Gellir gwneud unrhyw geisiadau eraill un ai yn yr hysbysiad hwn neu mewn hysbysiad cais ar wahân (Ffurflen FP244 – Hysbysiad Cais). Gellir cael y ffurflen hon gan y llys neu ar ein gwefan (hmctsformfinder.justice.gov.uk). Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffioedd ychwanegol os ffeilir hi'n ddiweddarach na'ch hysbysiad apelydd. Dylid cyflwyno ffurflenni sydd wedi'u llenwi i Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu.

ADRAN 11: Tystiolaeth i gefnogi

Cynhwyswch yma unrhyw wybodaeth sydd gennych i gefnogi eich cais/ceisiadau o dan Adran 10.

Os ydych yn gofyn i'r llys am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth newydd yn eich apêl neu'n gofyn am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth lafar yn y gwrandawiad apêl, bydd angen i chi roi rhesymau pam nad oedd y dystiolaeth newydd gerbron y llys gwreiddiol, a lle gofynnir am dystiolaeth lafar, y rhesymau pam eich bod yn credu bod angen hyn. Dylech chi, neu eich cyfreithiwr os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, lofnodi'r datganiad gwirionedd ar waelod yr adran hon i gefnogi unrhyw dystiolaeth a ddarperir gennych.

Mae'n bwysig eich bod yn gwirio bod yr wybodaeth sydd yn yr hysbysiad yn gywir cyn llofnodi. Mae llofnodi datganiad gwirionedd anwir heb gredu'n onest ei fod yn wir yn ddirmyg llys. Gallai arwain at ddirwy, atafaelu eich asedau neu ddedfryd o garchar.

ADRAN 12: Dogfennau ategol

Os ydych yn apelio i'r Uchel Lys, peidiwch ag oedi cyn ffeilio'ch hysbysiad apelydd yn Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu. Os nad ydych wedi gallu cael gafael ar unrhyw rai o'r dogfennau a restrir yn y rhestr wirio hon, llenwch yr hysbysiad orau y gallwch a gwnewch yn siŵr bod yr hysbysiad yn cael ei ffeilio mewn pryd. Ticiwch y blychau priodol i ddangos pa ddogfennau yr ydych yn eu ffeilio gyda'r hysbysiad apêl. Rhestrwch unrhyw ddogfennau yr ydych yn bwriadu eu defnyddio ond nad ydynt ar gael gennych yn y blwch dros y dudalen. Nodwch y rhesymau pam nad ydych wedi gallu cael gafael ar unrhyw ddogfennau neu wybodaeth a rhowch y dyddiad pryd yr ydych yn disgwyl y byddant ar gael. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid ffeilio'r dogfennau a ganlyn gyda'ch hysbysiad apelydd yn yr Uchel Lys:

- copi wedi'i selio neu'i stampio o'r hysbysiad apelydd, gan gynnwys seiliau'r apêl
- copi wedi'i selio neu'i stampio o'r gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn
- trawsgrifiad neu nodyn o'r dyfarniad (mae canllawiau yn ymwneud â thrawsgrifiadau i'w gweld yn y daflen **FP202 – 'Sut i apelio i Adran Deulu'r Uchel Lys')**
- copïau o unrhyw ddogfennau yr oedd cyfeiriad penodol atynt yn y dyfarniad
- copi o'r ddadl fframwaith i gefnogi'r apêl neu'r cais am ganiatâd i apelio
- copi o unrhyw ddatganiad tyst i gefnogi unrhyw gais sydd wedi'i gynnwys yn yr hysbysiad apelydd
- copi o'r dystysgrif cymorth cyfreithiol neu dystysgrif CLSF (os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol).

Peidiwch â ffeilio unrhyw ddogfennau eraill oni bai fod y llys yn gofyn i chi wneud hynny. Ni fydd y barnwr yn darllen unrhyw ddogfennau eraill a gyflwynir.

ADRAN 13: Llofnodi'r hysbysiad apelydd

RHAID i'r Hysbysiad Apelydd gael ei lofnodi gan yr apelydd, neu gan gyfreithiwr yr apelydd os oes ganddo gynrychiolydd cyfreithiol. Bydd y llys yn dychwelyd ffurflenni heb eu llofnodi a gallai hyn olygu bod yr apêl yn cael ei gwrthod os yw'n rhy hwyr.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ffeilio eich hysbysiad wedi'i gwblhau a'ch dogfennau

Gallwch naill ai ebostio eich ffurflen wedi'i chwblhau gyda'r atodiadau i appeals.familydivision@hmcts.gsi.gov.uk neu argraffu'r ffurflen a naill ai ei phostio neu fynd â chopïau o'r ffurflen a'r holl ddogfennau i swyddfa'r llys apêl gyda'r ffi briodol. Y cyfeiriad yw:

Family Division Appeals Office
Floor 1M
Queen's Building
Royal Courts of Justice
Strand
Llundain
WC2A 2LL

DX44450 Strand

Ffôn: 020 7947 7182

Gall staff llys roi gwybodaeth i chi ynglŷn â'r ffi. Bydd y llys yn selio'r hysbysiad (stampio'r hysbysiad gyda sêl y llys).

Cyflwyno'ch hysbysiad apelydd

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno copi wedi'i selio (wedi'i stampio gan y llys) o'ch hysbysiad apelydd i bob atebydd i'ch apêl cyn pen 7 niwrnod a ffeilio tystysgrif cyflwyno yn y llys cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny.

Gallai peidio â gwneud hynny olygu bod eich achos yn cael ei ddal yn ôl ('atal') neu ei wrthod ('dileu').

Paratoi a ffeilio eich bwndel o ddogfennau

Bydd angen i chi ffeilio bwndel o ddogfennau i'w defnyddio gan y Barnwr a fydd yn gwrando'r apêl. Dylai eich bwndel o ddogfennau gael ei ffeilio i bob un o'r atebwyr cyn pen 7 niwrnod ar ôl cael caniatâd i apelio. Dylai eich bwndel o ddogfennau gynnwys y dogfennau a restrwyd yn adran 12 a dim byd arall. Bydd y llys yn gwneud rhagor o gyfarwyddiadau yn ymwneud â ffeilio bwndeli yn ystod eich apêl.

Gallai peidio â chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan y llys olygu bod eich apêl yn cael ei dal yn ôl ('atal') neu ei gwrthod ('dileu').

Os byddwch yn cyflwyno eich dadl fframwaith ar wahân i'ch hysbysiad apelydd, rhaid i chi wneud hynny cyn pen 14 diwrnod ar ôl ffeilio eich hysbysiad apelydd yn y llys. Rhaid i chi anfon eich dadl fframwaith i'r llys yn ogystal ag i bob atebydd o fewn y cyfnod hwn..

Gallai peidio â gwneud hynny olygu bod eich achos yn cael ei ddal yn ôl ('oedi') neu ei wrthod ('dileu').